OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 2976 (Cy. 295)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 33A, Cyfnewidfa Brookside i Gyffordd 35, Cyfnewidfa Dobshill) a Chefnffordd yr A494 (Cyfnewidfa Drome Corner i Gyfnewidfa Parc Dewi Sant), Sir y Fflint (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 MYA) 2013

*Gwnaed* *22 Tachwedd 2013*

*Yn dod i rym* *1 Rhagfyr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer-Bangor (yr A55) a Chefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984[1] a phob pŵer galluogi arall[2], yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2013. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 33A, Cyfnewidfa Brookside i Gyffordd 35, Cyfnewidfa Dobshill) a Chefnffordd yr A494 (Cyfnewidfa Drome Corner i Gyfnewidfa Parc Dewi Sant), Sir y Fflint (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 MYA) 2013.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 18:30 o'r gloch ar 1 Rhagfyr 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau o Gefnffyrdd yr A55 a'r A494 a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Tachwedd 2013.

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## ATODLEN 1

## Gwahardd Cerbydau Dros Dro

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain Cefnffordd yr A494, sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant hyd at ddiwedd trwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Queensferry.

ii) Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cefnffordd yr A494 wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant.

iii) Y darnau cyfan o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain Cefnffordd yr A494 wrth Gyffordd Old Aston Hill a Chyffordd Plough Lane.

iv) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cefnffordd yr A494 wrth Gyfnewidfa Queensferry.

## ATODLEN 2

## Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin Cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o ddiwedd trwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35, Cyfnewidfa Dobshill hyd at ddiwedd trwyniad dolen glocwedd Ewloe wrth ei chyffordd â Chefnffordd yr A494, y gerbytffordd tua'r dwyrain.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffyrdd tua'r dwyrain Cefnffyrdd yr A55/A494 sy'n ymestyn o ganolbwynt yr ynys hollti wrth Gyffordd 33A, Cyfnewidfa Brookside ar Gefnffordd yr A55 hyd at ddiwedd y trwyniad lle mae'r ffordd ymadael tua'r dwyrain yn gwyro oddi ar brif gerbytffordd Cefnffordd yr A494 wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant.

iii) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cefnffordd yr A494 wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant.

iv) Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain Cefnffordd yr A494 wrth Gyffordd 33B sy'n ymestyn o'r trwyniad ar ddechrau'r ffordd ddeuol hyd at ddiwedd y trwyniad lle mae'r ffordd ymuno yn uno â'r A55/A494 tua'r dwyrain.

v) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin Cefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Drome Corner

at ddiwedd trwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant.

vi) Y darnau cyfan o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin Cefnffordd yr A494 wrth Gyfnewidfa Queensferry.

vii) Y darnau cyfan o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin Cefnffordd yr A494 wrth Gyfnewidfa Plough Lane.

viii) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin Cefnffordd yr A494 wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant.